

**2018 Rhif (Cy.)**

**2018 No. (W.)**

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Cefnffordd yr A477  
(East Williamston i Amroth Road,  
i'r dwyrain o Gilgeti, Sir Benfro)  
(Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro  
a Dim Goddiweddyd) 2018

The A477 Trunk Road (East  
Williamston to Amroth Road, east  
of Kilgetty, Pembrokeshire)  
(Temporary Speed Restrictions &  
No Overtaking) Order 2018

*Gwnaed* 16 Ionawr 2018

*Made* 16 January 2018

*Yn dod i rym* 22 Ionawr 2018

*Coming into force* 22 January 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Sanclêr i Ddoc Penfro (yr A477), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, being the traffic authority for the St Clears to Pembroke Dock Trunk Road (A477), are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be restricted and/or prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**Title, Interpretation and Commencement**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 22 Ionawr 2018 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (East Williamston i Amroth Road, i'r dwyrain o Gilgeti, Sir Benfro) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2018.

1. This Order comes into force on 22 January 2018 and its title is The A477 Trunk Road (East Williamston to Amroth Road, east of Kilgetty, Pembrokeshire) (Temporary Speed Restrictions & No Overtaking) Order 2018.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

2.—(1) In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a

- (a) any vehicle being used by the emergency services; and

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 22 Ionawr 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd Sanclêr i Ddoc Penfro (yr A477);

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### Cyfyngiadau a Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 yn weithredol.

### Atal Dros Dro

6. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3 a 4 yn weithredol.

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the St Clears to Pembroke Dock Trunk Road (A477);

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 00:01 hours on 22 January 2018 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

(2) Any reference in this Order to a numbered article or Schedule is a reference to the article or Schedule bearing that number in this Order.

### Restrictions and Prohibition

3. No person shall, during the works period, drive or cause or permit any vehicle to proceed at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1.

4. No person shall, during the works period, drive or cause or permit any vehicle to proceed at a speed exceeding 10 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in the Schedules.

5. No person shall, during the works period, use or permit the use of a vehicle in such a way that it overtakes any other vehicle on the lengths of the trunk road specified in the Schedules during such times as the restriction referred to in article 4 is in operation.

### Suspension

6. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the lengths of the trunk road specified in the Schedules are suspended during such times as the restrictions specified in articles 3 and 4 are in operation.

## Cymhwyso

7.—(1) Ni fydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

## Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

16 Ionawr 2018

*Nina Ley*

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith  
Llywodraeth Cymru

## Application

7.—(1) The restrictions and prohibition in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

## Duration of this Order

8. The maximum duration of this Order shall be 18 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

16 January 2018

*Nina Ley*

Head of Business Unit, Network Management  
Welsh Government

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1

#### Terfyn Cyflymder 40 mya neu 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd Dosbarth III yr C3129 (i East Williamston) hyd at bwynt 288 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4586 (i Broadmoor).

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 268 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4586 hyd at ganolbwynt ei chyffordd â ffordd Dosbarth III yr C3185 (Old Amroth Road), gan gynnwys cerbyttffordd gylchredol Cylchfan Cilgeti.

### ATODLEN 2

#### Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 288 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4586 (i Broadmoor) hyd at bwynt 268 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

## SCHEDULES

### SCHEDULE 1

#### Temporary 40 mph or 10 mph Speed Limit & No Overtaking

The length of the trunk road that extends from the centre-point of its junction with the C3129 Class III road (to East Williamston) to a point 288 metres south west of the centre-point of its junction with the B4586 (to Broadmoor).

The length of the trunk road that extends from a point 268 metres north east of the centre-point of its junction with the B4586 to the centre-point of its junction with the C3185 Class III road (Old Amroth Road), including the circulatory carriageway of Kilgetty Roundabout.

### SCHEDULE 2

#### Temporary 10 mph Speed Limit & No Overtaking

The length of the trunk road that extends from a point 288 metres south west of the centre-point of its junction with the B4586 (to Broadmoor) to a point 268 metres north east of the centre-point of that junction.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A477 (EAST WILLIAMSTON I AMROTH ROAD, I'R DWYRAIN O GILGETI, SIR BENFRO) (CYFYNGIADAU CYFLYMDER DROS DRO A DIM GODDIWEDDYD) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A477 rhwng East Williamston ac Amroth Road, i'r dwyrain o Gilgeti, Sir Benfro, neu gerllaw iddi.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

- i. gosod terfyn cyflymder o naill ai 40 mya neu 10 mya a gwahardd goddiweddys ar y darnau o'r A477 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn; a
- ii. gosod terfyn cyflymder o 10 mya a gwahardd goddiweddys ar y darn o'r A477 a ddisgrifir yn Atodlen 2. Bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn gymwys pan fydd gwaith confoi yn digwydd.

Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym am 00:01 o'r gloch ar 22 Ionawr ac yn parhau hyd 23:59 o'r gloch ar 31 Ionawr 2018 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a'r amserau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru) (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau Statudol Lleol/Gorchymynion Traffig Dros Dro/2018).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**THE A477 TRUNK ROAD (EAST WILLIAMSTON TO AMROTH ROAD, EAST OF KILGETTY, PEMBROKESHIRE) (TEMPORARY SPEED RESTRICTIONS & NO OVERTAKING) ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A477 trunk road between East Williamston and Amroth Road, east of Kilgetty, Pembrokeshire.

The effect of the Order is to temporarily:

- i. impose either a 40 mph or 10 mph speed limit and prohibit overtaking on the lengths of the A477 described in Schedule 1 to this Notice; and
- ii. impose a 10 mph speed limit and prohibit overtaking on the length of the A477 described in Schedule 2. The 10 mph speed limit will apply during convoy working.

The temporary restrictions and prohibition, which will be signed accordingly, are expected to come into force at 00:01 hours on 22 January and remain until 23:59 hours on 31 January 2018 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates and times specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at [www.gov.wales](http://www.gov.wales) (Select: Legislation/Subordinate Legislation/Local Statutory Instruments/Temporary Traffic Orders/2018).

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Transport  
Welsh Government

## **YR ATODLENNI**

### **ATODLEN 1**

#### **Terfyn Cyflymder 40 mya neu 10 mya Dros Dro a Dim Goddiwedd**

Y darn o'r A477 sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd Dosbarth III yr C3129 (i East Williamston) hyd at bwynt 288 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4586 (i Broadmoor).

Y darn o'r A477 sy'n ymestyn o bwynt 268 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4586 hyd at ganolbwynt ei chyffordd â ffordd Dosbarth III yr C3185 (Old Amroth Road), gan gynnwys cerbyttffordd gylchredol Cylchfan Cilgeti.

### **ATODLEN 2**

#### **Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Dim Goddiwedd**

Y darn o'r A477 sy'n ymestyn o bwynt 288 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4586 (i Broadmoor) hyd at bwynt 268 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

## **SCHEDULES**

### **SCHEDULE 1**

#### **Temporary 40 mph or 10 mph Speed Limit & No Overtaking**

The length of the A477 that extends from the centre-point of its junction with the C3129 Class III road (to East Williamston) to a point 288 metres south west of the centre-point of its junction with the B4586 (to Broadmoor).

The length of the A477 that extends from a point 268 metres north east of the centre-point of its junction with the B4586 to the centre-point of its junction with the C3185 Class III road (Old Amroth Road), including the circulatory carriageway of Kilgetty Roundabout.

### **SCHEDULE 2**

#### **Temporary 10 mph Speed Limit & No Overtaking**

The length of the A477 that extends from a point 288 metres south west of the centre-point of its junction with the B4586 (to Broadmoor) to a point 268 metres north east of the centre-point of that junction.